

*TORFAEN
COUNTY
BOROUGH*



*BWRDEISTREF
SIROL
TORFAEN*

Safonau'r Gymraeg: Cynllun Gweithredu

Drafft – Mehefin 2021



CYNNWYS

	Tudalen
Cyflwyniad	<u>1</u>
Datganiad Polisi	<u>1</u>
Safonau Cyflenwi Gwasanaethau	<u>2</u>
Safonau Llundio Polisi	<u>9</u>
Safonau Gweithredu	<u>10</u>
Goruchwylio, Hyrwyddo a Hwyluso	<u>15</u>
Casgliad	<u>15</u>

1. CYFLWYNIAD

Sefydlodd Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 fframwaith cyfreithiol i osod dyletswydd ar sefydliadau penodol i gydymffurfio â safonau o ran y Gymraeg drwy is-ddeddfwriaeth Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015.

Caiff y 170 o safonau sy'n berthnasol i Gyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen eu rhestru yn 'Hysbysiad Safonau Iaith Gymraeg Cydymffurfiaeth - 30.09.15'.

Cafodd y ddogfen hon ei llunio er mwyn cynnig crynodeb o'r gwaith y mae'r Cyngor yn ei wneud i gydymffurfio â'r safonau sy'n ymwneud â Darparu Gwasanaeth, Llundio Polisi a Safonau Gweithredu yn unol â Safonau 157, 159, 163, 165 a 171. Pwrpas y ddogfen yw tynnu sylw'r holl weithwyr, a'r gymuned ehangach, at ymrwymiad y Cyngor i'r iaith Gymraeg a chydymffurfio a'r rheoliadau.

2. DATGANIAD POLISI

Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i hyrwyddo cyfleoedd cyfartal ar gyfer ei holl weithwyr cyfredol, darpar-weithwyr a pawb yn ein cymunedau sy'n siarad Cymraeg ac sy'n dymuno ei ddefnyddio gyda ni. Mae'r Cyngor o'r farn bod cyfleoedd cyfartal o bwys, ac mae'r iaith yn hawlio lle cyfartal mewn pob strategaeth, ideoleg ac egwyddor corfforaethol.

Ein nod yw bod yn Gyngor sy'n gwerthfawrogi ac yn parchu pob gweithiwr, pob unigolyn sy'n cyflwyno cais am swydd a phob cwsmer, pawb sy'n byw yn ein hardal, a'r ymwelwyr sy'n ymweld â'r ardal. Rydyn ni'n credu fod gan bawb sy'n byw yn Nhorfaen yr hawl i ddefnyddio'r Gymraeg gyda ni.

Byddwn ni'n gweithio er mwyn sicrhau bod pawb yn ein cymunedau'n gallu cael mynediad at ein gwasanaethau a'n gwybodaeth drwy gyfrwng y Gymraeg. Byddwn ni'n ystyried eu hanghenion gwahanol wrth ddatblygu ein gwasanaethau a'n harferion, ac yn ceisio sicrhau bod ein dull o weithredu'n gynhwysol i bawb.

Ein nod yw sefydlu diwylliant yn y gweithle sy'n annog y rhai sydd yn gallu'r Gymraeg i weithio'n ddwyieithog ac sy'n hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg yn ein sefydliad.

Rydyn ni'n cydnabod ein bod ni'n gallu gwasanaethu ein cymunedau'n well trwy adlewyrchu'r amrywiaeth o bobl sy'n bodoli yn ein cymunedau ymysg ein gweithwyr. Rydyn ni o'r farn bod y Cyngor yn gyfoethocach diolch i'r gwahaniaethau rhwng pobl a'u sgiliau gwaith, a byddwn ni'n gweithio i sicrhau bod y neges yma'n cael ei rhannu ledled Torfaen ac yn cael ei hadlewyrchu yn rhan o'n broses recriwtio.

3. SAFONAU CYFLENWI GWASANAETHAU

Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i gyflwyno polisïau a gweithdrefnau eang i sicrhau bod y Cyngor yn cydymffurfio â'r Safonau Cyflenwi Gwasanaethau. Safonau sy'n cael eu pennu ac sy'n gofyn i ni hybu neu hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg o fewn y Cyngor ac i sicrhau na chaiff y Gymraeg ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg wrth ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd yw'r Safonau Cyflenwi Gwasanaethau.

Nid yw Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn ceisio trin y Gymraeg a'r Saesneg ar sail cydraddoldeb, mae'n sicrhau bod y gwaith yn cael effaith gadarnhaol ar y Gymraeg. O ganlyniad i hynny, mae'r Mesur yn caniatáu i gyrrff arfer y nod hwn yn annibynnol ar y Saesneg.

Sut rydyn ni'n bwriadu cydymffurfio.

Gohebiaeth (Safon 1, 4, 5, 6, a 7)

Bydd holl e-byst a llythyron corfforaethol y Cyngor yn cynnwys y datganiad canlynol:

Mae'r Cyngor yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg a Saesneg. Cewch ateb Cymraeg i bob gohebiaeth yn Gymraeg ac ni fydd yn arwain i unrhyw oedi.	The Council welcomes correspondence in Welsh and English. Correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and will not lead to any delay.
--	--

Mae'r Siart Llif Gohebiaeth - Cymraeg, Saesneg neu Ddwyieithog wedi'i datblygu gan y Cyngor i fynd i'r afael â materion cydymffurfio â'r safonau gohebiaeth. Mae copi ar gael i staff ar dudalennau Cymraeg y fewnwyd.

Lle nad oes gan y maes gwasanaeth gapasiti i ddarparu ymatebion ysgrifenedig yn Gymraeg, mae'r Cyngor wedi buddsoddi mewn gwasanaeth Cymraeg i sicrhau ein bod ni'n cydymffurfio â'r Safonau.

Galwadau Ffôn (Safon 8, 9, 11, 12, 13, 14, 15, 16, 17, 19, 20, 21 a 22)

Bydd pob galwad ffôn i'r Cyngor yn cael ei hateb yn ddwyieithog, gyda'r Gymraeg yn gyntaf. Mae cardiau fflach wedi eu dosbarthu i pob swyddog (atodiad 2) ynghyd a hyfforddiant achlysurol a ddarperir i feysydd gwasanaeth, a'r broses hyfforddiant sefydlu newydd l aelodau staff newydd â Safonau'r Gymraeg yn cefnogi'n staff i gydymffurfio â hyn.

Daw'r mwyafrif helaeth o alwadau ffôn drwy'r ganolfan alwadau'r Cyngor, lle mae llinell Gymraeg penodol yn mynd i'r afael â'r galwadau Cymraeg. Os nad yw'r ganolfan alwadau yn gallu ateb ymholiad y galwr, bydd galwadau'n cael eu trosglwyddo i'r adran berthnasol. Lle nad oes swyddog gyda sgiliau Cymraeg ar gael, byddwn yn cynnig opsiwn galw'n ôl neu opsiwn i barhau â'r alwad yn Saesneg.

Mae staff sy'n derbyn galwadau ffôn uniongyrchol yn gyfarwydd â'r weithdrefn os oes angen gwasanaeth Cymraeg ar y galwr. Mae hyn yn golygu un ai trosglwyddo'r galwad i siaradwr Cymraeg o fewn yr adran, trosglwyddo i'r Adran Gymraeg, cymryd manylion y galwr i alw'n ôl neu cynnig parhau a'r alwad Saesneg.

Mae'r Cyngor yn effro i'w ddyletswydd i sicrhau ei fod yn ymdrin â'r holl ymholiadau cychwynnol a gyflwynir i'r sefydliad yn Gymraeg. Caiff hyn ei gyflawni yn rhan o weithdrefnau rhagweithiol mewn perthynas â recriwtio ac uwch sgilio ein staff yn ystod y tymor canolig/hir dymor.

Pan fyddwn ni'n cyhoeddi'n rhif ffôn a/neu gyfeiriad e-bost er mwyn annog unigolion i gysylltu â ni, mae'r garfan dylunio'n sicrhau bod y neges ganlynol i'w gweld –

Croesawn alwadau yn y Gymraeg	We welcome calls in Welsh
-------------------------------	---------------------------

Mae unrhyw waith cyfieithu yn cael ei ddychwelyd i'r sawl sydd wedi cyflwyno'r cais gan gynnwys neges ragweithiol sy'n annog y perchennog i sicrhau bod y neges yma'n ymddangos ar y ddogfen (gweler atodiad 4).

Mae ein canllawiau corfforaethol yn rhoi gwybod i staff bod angen iddyn nhw sicrhau bod unrhyw negeseuon ffôn ar gael yn ddwyieithog.

Mae ein rhif ffôn corfforaethol yn gofyn am ddewis laith clir, gyda neges awtomatig yn cael ei chwarae ym mhob achos lle nad oes ymgynghorydd sy'n siarad Cymraeg ar gael i ateb yr alwad.

Cyfarfodydd Caeedig (Safon 24, 24A, 26, 26A, 27, 27A, 27D, 29 a 29A)

Mae pob aelod o staff y cyngor gyfrifol am weithredu cynnig rhagweithiol er mwyn i unigolion allu ddefnyddio'r Gymraeg yn ystod cyfarfod.

Os bydd 10% neu fwy o'r mynychwyr eisiau defnyddio'r Gymraeg, mae dyletswydd ar y trefnydd i archebu cyfieithydd ar y pryd ar gyfer y cyfarfod.

Mae canllaw cynnal cyfarfodydd dwyieithog ac sut i drefnu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd ar fewnrwyd y cyngor

Mae'r weithdrefn yma hefyd yn cael ei drafod yn ystod ein sesiwn ymsefydlu corfforaethol i staff newydd.

Cyfarfodydd Agored (Safon 30, 31, 32, 33 a 34)

Mae holl swyddogion y cyngor yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau wrth drefnu cyfarfodydd agored (dim gwahoddiad unigol). Darperir canllaw I staff o sut y dylid gweithredu'r cynnig rhagweithiol i'r rhai sy'n dymuno defnyddio'r Gymraeg yn rhan o gyfarfod cyhoeddus.

Bydd hysbysebion ar gyfer cyfarfodydd cyhoeddus yn cynnwys y neges ganlynol –

Mae croeso i chi ddefnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod dim ond i chi roi gwybod i ni ymlaen llaw – lleiafswm o 3 diwrnod gwaith	You are welcome to use Welsh at the meeting, a minimum notice period of 3 working days is required should you wish to do so
--	---

Bydd gwasanaeth cyfieithu ar y pryd neu swyddogion sy'n medru'r Gymraeg yn mynychu'r cyfarfodydd hynny lle derbyniwyd ymateb. Os cynhelir y cyfarfod yn ddwyieithog, yna bydd y cyhoeddiad canlynol yn cael ei gyhoeddi ar ddechrau'r cyfarfod.

Mae croeso i chi ddefnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod hon gan fod cyfieithu ar y pryd ar gael	You are welcome to use Welsh at this meeting as simultaneous translation has been provided
---	--

Mae pob gwahoddiad yn cael ei anfon yn ddwyieithog, yn unol â'r safonau gohebiaeth.

Digwyddiadau Cyhoeddus (Safon 35 a 36)

Bydd holl hysbysebion y Cyngor neu unrhyw sefydliad arall sy'n destun i'r safonau iaith, ac unrhyw ddeunydd sy'n cael ei gyhoeddi ar gael yn ddwyieithog fel mater o drefn. Mae trefnydd yn gyfrifol am sicrhau fod unrhyw ddeunydd allanol ar gael yn Gymraeg, gan eithrio darparwyr masnachol; sefydliad gwirfoddol; a darparwr annibynnol.

Rydym ni hefyd yn blaenoriaethu swyddogion sydd a sgiliau Cymraeg wrth benderfynu pwysu sy'n mynychu achlysuron i'r cyhoedd er mwyn sicrhau bod gwasanaeth Cymraeg ar gael.

Cyhoeddusrwydd, Deunydd Marchnata a Dogfennau Cyffredinol y Cyngor (Safon 37, 38, 42, 43, 45, 47, 48 a 49)

Mae'r holl ddogfennau sy'n cael eu cyhoeddi gan Gyngor Torfaen, gan gynnwys deunydd hysbysebu, trwyddedau, tystysgrifau, llyfrynau, taflenni gwybodaeth a rheolau yn cael eu cyhoeddi yn Gymraeg. Rydym yn llunio dogfennau dwyieithog ble'n bosibl i sicrhau bod y Gymraeg ar gael yn yr un ddogfen. Os nad yw hyn yn bosibl, rydym yn cyhoeddi dogfennau Cymraeg a Saesneg ar wahân ac yn sicrhau fod y datganiad isod yn cael ei arddangos yn glir ar y ddwy fersiwn.

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg	This document is available in Welsh
---	--

Agendâu a Chofnodion (Safon 41)

Bydd agendâu a chofnodion holl gyfarfodydd pwyllgorau'r Cyngor ar gael yn Gymraeg ar ein gwefan. Mae'r Gwasanaethau Democrataidd yn gweithio'n agos gyda'r Uned Gymraeg i sicrhau bod y safonau hyn yn cael eu gweithredu'n heb os.

Ni fydd adroddiadau a dogfennau eraill sy'n atodi'r agenda yn cael eu dosbarthu yn Gymraeg yn unol a'r safonau

Datganiadau i'r Wasg (Safon 46)

Mae pob datganiad i'r wasg yn cael ei gyhoeddi ar wefan y Cyngor. Nid yw unrhyw ddatganiad yn cael ei ryddhau heb fo'r Gymraeg ar Saesneg yn cael eu dosbarthu ar yr un pryd.

Ffurflenni (Safon 50, 50A, 50B a 51)

Caiff pob ffurflen, gan gynnwys ffurflenni ar-lein, eu cyhoeddi'n ddwyieithog lle bo hynny'n bosibl. Yn achos dogfennau sydd â fersiwn Gymraeg a Saesneg ar wahân, byddwn yn sicrhau bod y neges ganlynol ar ffurflenni hyn

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg	This document is available in Welsh
---	--

Bydd ffurflenni ar-lein yn cynnig dewis iaith ragweithiol ar ddechrau'r ffurflen.

Gwefannau, Apiau a Gwasanaethau Ar-lein (Safon 52, 55, 56 a 57)

Mae'r holl wybodaeth a gyhoeddir ar ein gwefan corfforaethol (torfaen.gov.uk), ynghyd â'i dewislenni, ar gael yn Gymraeg. Bydd y Rheolwr E-wasanaethau yn sicrhau fod holl dudalennau'r wefan ar gael yn y ddwy iaith. Caiff staff ehangach eu hatgoffa o'u cyfrifoldeb i baratoi a chyhoeddi dogfennau sy'n ymddangos ar y we yn Gymraeg.

Mae gan y Cyngor nifer o wefannau, sy'n darparu gwybodaeth i'r cyhoedd. Wrth i ni ddiwygio a datblygu'r gwefannau hyn, bydd y cynnwys yn cael ei gyhoeddi yn Gymraeg. Oherwydd problemau technolegol, hen systemau, gall hyn gymryd amser, ond hoffwn sicrhau ein defnyddwyr, mai cael systemau hollol dwyieithog yw y nôd.

Erbyn hyn mae pob adran, wrth iddynt gomisiynu partneriaid allanol i ddarparu gwasanaeth ar-lein, yn rhan o'n Gwasanaethau Caffael, yn cynnwys manylion y safonau perthnasol yn rhan o'r ddogfen dendro, gan sicrhau bod gwasanaethau newydd ar gael yn ddwyieithog o'r cychwyn cyntaf yn unol â'r safonau.

Mae pob tudalen yn cyfeirio, drwy ddolen dewis iaith, i'r union dudalen yn y Saesneg neu'r Gymraeg. Mi fydd hen systemau, sydd ddim a'r meddalewdd i weithredu hyn, yn nodi ar eu tudalen y neges isod yn cynnwys dolen i'r tudalen cyfartal

Mae'r dudalen we hon hefyd ar gael yn Gymraeg	This web page is also available in Welsh
---	--

Y Cyfryngau Cymdeithasol (Safon 58 a 59)

Swyddogion unigol bydd yn gyfrifol am gydymffurfio â'r safonau a sicrhau fod negeseuon yn ddwyieithog unai ar un cyfrif neu dau gyfrif (Cymraeg a Saesneg ar wahan).

Byddwn yn plismona'r cyfryngau cymdeithasol o dro i dro, ac yn cynnig cymorth i wella'r gydymffurfiaeth ble bo angen. Mae canllawiau corfforaethol ar gael i staff ar fewnrwyd y Cyngor.

Peiriannau Hunanwasanaeth (Safon 60)

Mae staff y Cyngor wedi sicrhau bod peiriannau hunanwasanaeth, fel ein peiriannau talu yn y Ganolfan Ddinesig ar gael yn Gymraeg ac yn cynnwys opsiwn dewis iaith sy'n cael ei chynnig i'n defnyddwyr gwasanaeth ar ddechrau'r broses.

Arwyddion a Hysbysiadau (Safon 61, 62, 63, 69 a 70)

Mae'r adran Ddylunio ac adran Priffyrdd y Cyngor wedi derbyn hyfforddiant ar ofynion y Safonau. Mae gan bob arwydd newydd sy'n cael ei awdurdodi fersiwn Gymraeg, sydd wedi cael ei gwirio gan ein gwasanaeth cyfieithu i sicrhau bod y Gymraeg wedi sillafu'n gywir a bod y Gymraeg yn ymddangos yn gyntaf.

Mae'r holl hysbysiadau sy'n cael eu cyhoeddi gan y gwasanaethau cyfreithiol ac adran iechyd y cyhoedd bellach yn ddwyieithog (Gymraeg yn gyntaf) neu bydd y Gymraeg a Saesneg ar wahân.

Gwasanaethau Derbynfafa (Safon 64, 65, 65A, 66, 67 a 68)

Mae staff y dderbynfafa yn ymwybodol o'r angen i groesawu a darparu gwasanaethau derbynfafa yn Gymraeg. Mae ein sesiynau ymsefydlu a'n canllaw i staff yn pwysleisio'r pwysigrwydd a ddewis iaith ein defnyddwyr. Mae'r holl weithwyr cyfredol wedi derbyn hyfforddiant sy'n sicrhau bod gan y staff y sgiliau angenrheidiol i ymdopi ag ymholiadau yn Gymraeg.

Bydd gweithdrefnau recriwtio rhagweithiol, dros y tymor canolig / hir dymor, yn sicrhau gallu'r Cyngor i ddarparu gwasanaeth dwyieithog.

Mae gan bob derbynfafa gydag arwydd 'Mae croeso i chi siarad â ni yn y Gymraeg' ac mae pob un sydd â sgiliau Cymraeg yn gwisgo cortyn gwddf neu fathodyn sy'n nodi hynny.

Dyfarnu Grantiau (Safon 71, 72, 72A, 74, a 75)

Bydd pob cais am grant yn cynnwys y canlynol –

Mae croeso i chi gyflwyno eich cais yn Saesneg neu'n Gymraeg, bydd pob cais yn cael ei drin yn gyfartal	You are welcome to submit your application in English or in Welsh, each application will be treated equally
---	---

Bydd unrhyw ddogfen neu ohebiaeth ynghylch y grant, gan gynnwys y broses cyfweiliadau, yn cael ei anfon yn newis iaith yr unigolyn, ac yn unol â'n Siart Llif Gohebiaeth – Cymraeg, Saesneg neu Dwyieithog (atodiad 1).

Dyfarnu Contractau (Safon 76, 77, 77A, 79 ac 80)

Cafodd trefniadau tendro Uned Caffael y Cyngor eu diweddarau i adlewyrchu'r gofynion newydd. Mae'r ddogfen Gwahoddiad i Dendro yn cael ei chyhoeddi yn ddwyieithog ar wefan EdendroCymru (sydd hefyd yn ddwyieithog) ac yn cynnwys y canlynol –

Rhaid cwblhau'r tendrau yn Gymraeg neu'n Saesneg. Fydd tendrau a gaiff eu cyflwyno yn Gymraeg ddim yn cael eu trin yn llai ffafriol na thendrau a gaiff eu cyflwyno yn Saesneg.	Tenders must be completed in Welsh or English. Tenders submitted in Welsh will be treated no less favourably than a tender submitted in English.
---	--

Mae'r wefan hefyd yn anfon negeseuon er mwyn hysbysu unigolion bod dogfen newydd wedi'i llwytho. Mae'r neges ynghyd â'r llythyr sy'n gwahodd pobl i gyfweiliad yn ddwyieithog. Mae'r llythyr yn cynnwys y canlynol –

Mae modd i chi gael y cyfweiliad drwy gyfrwng y Gymraeg. Pe hoffech chi wneud hyn, rhowch wybod erbyn xx/xx/xxxx.	Should you wish for the interview to be conducted in Welsh please inform me by xx/xx/xxxx.
---	--

Bydd y Cyngor yn trefnu/hwyluso gwasanaeth cyfieithu ar y pryd.

Mae'n ofynnol i swyddogion asesu'r tendrau i sicrhau fod y canlynion yn berthnasol neu beidio :

- A yw'r pwnc y gwahoddiad i dendro am gontract yn awgrymu y dylid ei gyhoeddi yn Gymraeg, neu
- A yw'r gynulleidfa a ragwelir, a'u disgwyliadau, yn awgrymu y dylid cyhoeddi'r gwahoddiad yn Gymraeg.

Mae Pennaeth yr Adran Caffael yn gyfrifol am sicrhau fod unrhyw gais i dendro yn cydymffurfio a'r safonau.

Hyrwyddo Gwasanaethau Cymraeg (Safon 81 ac 82)

Mae gan bob maes gwasanaeth y dasg unigol o hyrwyddo eu gwasanaethau Cymraeg unigryw a bydd y Cyngor yn defnyddio Diwrnod Hawliau'r Gymraeg i hyrwyddo'r gwasanaethau hyn yn y gymuned gan ddefnyddio ein gwefan a'n cyfrifon cyfryngau cymdeithasol.

Hunaniaeth Gorfforaethol (Safon 83)

Mae hunaniaeth gorfforaethol y Cyngor yn bodloni'r safonau. Bydd unrhyw frandio newydd neu sy'n bodoli eisoes ac yn berchen i'r sefydliad yn cael ei ddiweddarau i sicrhau bod y Gymraeg a'r Saesneg yn rhan o'r un logo.

Cyrsiau a Ddarperir gan y Cyngor (Safon 84 ac 86)

Mae'r Gwasanaeth Addysg yn y Gymuned yn gweithredu cynnig rhagweithiol wrth i bobl gofrestru ac yn defnyddio'r data er mwyn asesu a oes angen cyflwyno'r cwrs yn Gymraeg ai peidio. Hefyd, mae hyn yn ein galluogi i asesu lefel y ddarpariaeth Gymraeg, ein hamcanion o ran hyrwyddo'r Gymraeg a natur ddaearyddol a demograffig yr ardal.

4. SAFONAU LLUNIO POLISIÂU

Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i gyflwyno gweithdrefnau eang i sicrhau ei fod yn cydymffurfio â'r Safonau Llundio Polisi. Dyma safonau sy'n ei gwneud yn ofynnol i ni sicrhau ein bod yn ystyried sut allai'r penderfyniad polisi gael effaith gadarnhaol, neu sut allai'r penderfyniad gynyddu'r effeithiau cadarnhaol, ar y cyfleoedd sydd ar gael i berson ddefnyddio'r Gymraeg ac ar yr egwyddor o beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg wrth llunio polisi newydd neu adolygu neu ddiwygio polisi sydd eisoes yn bodoli.

Nid yw Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn ceisio trin y Gymraeg a'r Saesneg ar sail cydraddoldeb, mae'n sicrhau bod y gwaith yn cael effaith gadarnhaol ar y Gymraeg. O ganlyniad i hynny, mae'r Mesur yn caniatáu i gyrrff arfer y nod hwn yn annibynnol ar y Saesneg.

Sut rydyn ni'n bwriadu cydymffurfio.

Llundio Polisi Newydd, Adolygu neu Ddiwygio Polisi sydd eisoes yn bodoli (Safon 90, 91 a 92)

Fel rhan o waith llunio polisi newydd neu adolygu neu ddiwygio polisi sydd eisoes yn bodoli, bydd y Cyngor yn sicrhau ei fod yn cynnal Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg i ystyried sut mae modd llunio'r penderfyniad polisi i gynyddu effeithiau cadarnhaol ar y Gymraeg ac ar y cyfleoedd sydd gan bobl i ddefnyddio'r Gymraeg, gan sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg a sut mae modd lleihau'r effaith negyddol.

Mae'r Cyngor, fel rhan o'r Asesiad Effaith ar y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 i helpu rheolwyr i gwblhau asesiad ystyrion a fydd yn ceisio cynyddu'r effeithiau cadarnhaol ar y Gymraeg ac yn cefnogi gweithdrefnau penderfynu cadarn y Cyngor.

Rhan o'r weithdrefn hon yw'r gwaith craffu sy'n cael ei gyflawni gan swyddogion perthnasol ar ddechrau'r broses sy'n cael ei gynnwys yn yr asesiad er mwyn casglu ystod eang o farnau gan bobl sydd â phrofiad eang mewn nifer o wasanaethau'r Cyngor. Ac mae'r uned Gymraeg yn rhan o'r broses craffu.

Ymgynghori ar Benderfyniadau Polisi (Safon 91, 92 a 93)

Mae'r Cyngor wedi llunio rhestr sydd ar gael ar gyfer ymgynghoriadau er mwyn i'n swyddogion sicrhau'u bod pob ymgynghoriad yn cael mewnbwn y gymuned Gymraeg ac yn cydymffurfio â'r safonau perthnasol.

Yn ogystal a barn y cyhodd mae angen nodi sut mae'r Cyngor wedi ystyried effaith bosibl y penderfyniad polisi ar y Gymraeg yn rhan o'r ddogfen ymgynghori (bydd hyn yn cael ei gynhyrchu yn rhan o'r broses asesu effaith) gan ystyried yr ymatebion y bobl sy'n cymryd rhan yn yr ymgynghoriad mewn perthynas â'r effaith ar y Gymraeg. Caiff hyn ei gyflawni drwy ofyn cwestiynau

penodol sy'n ymwneud â'r materion yma.

Polisi Grantiau (Safon 94)

Bydd y Cyngor yn llunio polisi ar gyfer dyfarnu grantiau yn unol â gofynion Safon 94.

Cynnal Gwaith Ymchwil i Lunio Penderfyniad Polisi (Safon 95, 96 a 97)

Yn rhan o'r gwaith ymchwil sy'n cael ei gyflawni er mwyn cynorthwyo penderfyniadau polisi (gan amlaf ar ffurf arolygon barn gyda'r rhwydweithiau a'r cyhoedd), bydd y Cyngor yn cynnwys cwestiynau sy'n ymwneud â sut mae modd llunio'r penderfyniad polisi i gynyddu effeithiau cadarnhaol ar y Gymraeg ac ar y cyfleoedd sydd gan bobl i ddefnyddio'r Gymraeg, gan sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg a sut mae modd lleihau'r effaith negyddol.

5. SAFONAU GWEITHREDU

Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i gyflwyno gweithdrefnau eang i sicrhau ei fod yn cydymffurfio â'r Safonau Gweithredu.

Mae'r Safonau yma yn mynd i'r afael â'r defnydd sy'n cael ei wneud o'r Gymraeg o fewn sefydliadau. Er enghraifft, drwy sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg o ran materion cyflogaeth, lles a hyfforddiant a sicrhau bod pob swyddog yn cael y cyfle i ddysgu Cymraeg a'i defnyddio.

Nid yw Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn ceisio trin y Gymraeg a'r Saesneg ar sail cydraddoldeb, mae'n sicrhau bod y gwaith yn cael effaith gadarnhaol ar y Gymraeg. O ganlyniad i hynny, mae'r Mesur yn caniatáu i gyrrff arfer y nod hwn yn annibynnol ar y Saesneg.

Sut rydyn ni'n bwriadu cydymffurfio.

Polisi Mewnol - Defnyddio'r Gymraeg (Safon 98)

Mae'r Gwasanaethau Cymraeg yn cynghori'r Cyngor ar y ffordd orau o sicrhau ei fod yn hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg yn fewnol. Ymhlith y mentrau mae ein hymgyrchoedd Diwylliant Cymru, Gwersi Cymraeg a chynlluniau cyflwyno meddalwedd.

Recriwtio (Safon 99, 136, 136A, 137, 137A, 137B, 139, 140 a 153)

Mae Cyngor Torfaen yn gweithio tuag at nod o recriwtio nifer y siaradwyr Cymraeg yn ein sefydliad i adlewyrchu'r sgiliau iaith yn y gymuned, gan sicrhau fod y sgiliau ar gael ymhob maes gwasanaeth.

Cofnodi Dewis Iaith (Safon 100, 101, 102, 103)

Mae pob cofnod staff yn cynnwys manylion dewis iaith. Cafodd hyn ei nodi yn ystod y broses benodi neu'n ôl-weithredol yn achos staff sydd eisoes yn gweithio i'r Cyngor, drwy ymgyrch ar ein bwletin staff. Yn dilyn cynllun diweddar arfaethedig yn 2021, bydd ein system Adnoddau Dynol yn cynnwys yr holl wybodaeth yma, a bydd mynediad gan bob rheolwr at y system. Caiff pob dogfen sy'n ymwneud â hyfforddiant, cyflawniad a chynllun gyrfa eu llunio yn Gymraeg er mwyn i'r unigolion ddefnyddio'r iaith maen nhw'n ei dewis.

Dogfennau Corfforaethol (Safon 104)

Bydd y Cyngor yn gweithio i ddiwygio ei systemau cofnodi gwyliau, absenoldebau ac oriau yn yr hir dymor, gan nad yw'r system bresennol yn ein galluogi i weithredu drwy'r Gymraeg

Polisiau AD (Safon 105, 106, 107, 108, 109, 110, 111)

Mae holl Bolisiau'r Cyngor ar gael yn Gymraeg ar ein mewnwyd.

Cwynion, Disgyblu ac Ymchwiliadau (Safon 112, 112A, 114, 115, 116, 116A, 118, a 119)

Mae Polisiau Adnoddau Dynol y Cyngor sy'n ymdrin â chwynion staff neu'r broses ddisgyblu wedi'u diweddarau i adlewyrchu gofynion y safonau. Mae hyn yn sicrhau bod rheolwyr a staff yn effro i hawliau staff sy'n siarad Cymraeg o ran derbyn gwybodaeth a chwblhau'r broses yn Gymraeg os ydyn nhw'n dymuno. Mae ein llythyrau templed safonol sy'n mynd i'r afael â'r materion yma hefyd yn gweithredu cynnig rhagweithiol er mwyn i'r person ddefnyddio'r Gymraeg yn ystod cyfarfodydd ffurfiol.

Adnoddau TG (Safon 120)

Mae Cysill, Cysgeir a To Bach ar gael i bob aelod o staff ar unrhyw ddyfais, beth bynnag yw eu dewis iaith.

Mae'r Cyngor hefyd yn ymrwymedig i gael pecyn iaith Microsoft wedi ei osod ar bob peiriant.

Y Fewnwyd (SWOOP) (Safon 122, 124, 125)

Mae hafan Gymraeg ar y fewnwyd sy'n cynnwys eitemau sy'n ymwneud â'r iaith Gymraeg ar gael yn Gymraeg.

Sgiliau iaith ein Gweithlu (Safon 127)

Caiff sgiliau iaith ein gweithwyr eu casglu yn rhan o'r broses recriwtio. Mae gofyn i'r holl weithwyr cyfredol gwblhau ffurflen hunanwerthuso a'i gofnodi ar ein system AD, ynghyd a dewis iaith. Mae'r wybodaeth hyn ar gael i reolwyr ac i'r uned Gymraeg gael monitro'r ddarpariaeth

Hyfforddiant (Safon 128, 129, 130, 131, 132 a 133)

Mae hyfforddiant corfforaethol yn cael ei ddatblygu yn Gymraeg yn rhan o gynnyg ar-lein. Os yw'r hyfforddiant yn cael ei ddarparu wyneb yn wyneb yna bydd y ffurflen gofrestru yn cynnwys cynnyg rhagweithiol i dderbyn yr hyfforddiant yn Gymraeg.

Mae'r Cyngor yn geithio'n agos gyda Dysgu Cymraeg Gwent i ddarparu gwersi Cymraeg i staff, gan gynnwys gwersi sy'n mynd i'r afael â materion sy'n berthnasol iddyn nhw yn y gwaith. Caiff hyfforddiant Cymraeg ei ariannu gan y Cyngor. Rydym yn annog staff i ymuno a grwpiau sy'n eisios yn bodoli yn gymuned i sicrhau fod digon o ddysgwyr i'r cwrs fod yn gynaliadwy.

Llofnodion E-bost, Negeseuon Allan o'r Swyddfa, Logo iaith Gwaith (Safon 134 a 135)

Fel rhan o'r broses ymsefydlu, mae'r staff yn mynd i'r afael a'r Safonau corfforaethol, sy'n cynnwys llunio llofnodion e-bost a negeseuon allan o'r swyddfa dwyieithog, ac yn cynnwys logo iaith gwaith lle bo hynny'n briodol.

Arwyddion yn y Gweithle (Safon 141, 142 a 143)

Caiff staff eu hatgoffa o'r angen i sicrhau bod yr holl arwyddion yn y gweithle ar gael yn Gymraeg yn rhan o'r sesiwn ymsefydlu a chanllawiau ar y fewnwyd

6. GORUCHWYLIO, HYRWYDDO A HWYLUSO

Mae grŵp cydgysylltu'r Gymraeg yn goruchwyllo materion Cymraeg yn cynnwys datblygiadau strategol, yn trafod adroddiadau gan adrannau perthnasol ar faterion sy'n ymwneud â'r Gymraeg, yn cyflwyno argymhellion i wella a monitro ym mhob adran o'r Cyngor.

Mae cyfrifoldeb i asesu Cynllun Gweithredu Strategaeth Hybu'r Gymraeg, gan fonitro cynnydd y Cyngor wrth iddo geisio bodloni Safonau'r Gymraeg.

Mae'r Cyngor yn buddsoddi mewn uned Cymraeg effeithio sy'n cynnwys 4 aelod o staff (2020/2021).

Mae'r Uned yn gweithio i gefnogi holl wasanaethau'r Cyngor drwy wneud y canlynol:

- rhoi cyngor a chymorth rhagweithiol i wasanaethau ynglŷn â'u dyletswyddau o dan y Safonau.
- cyfieithu dogfennau ar gyfer y cyhoedd ac adnoddau dynol
- nodi meysydd posibl o ran methu â chydymffurfio
- rhoi cyngor i bob maes gwasanaeth ynglŷn â'r ffordd orau o ymateb i gwynion ffurfiol ac anffurfiol.
- adrodd ar ddatblygiadau i Grŵp cydgysylltu'r Gymraeg ar faterion yn ymwneud a'r Gymraeg
- bod yn bresennol ar gyfer cyfarfodydd Fforwm Iaith - gan weithio gyda sefydliadau Cymraeg yn y gymuned.
- ymchwilio i'r holl fethiannau honedig o ran cydymffurfio a dderbyniwyd gan Gomisiynydd y Gymraeg a hwyluso cyswllt ar ran y Cyngor.
- Rhoi cyngor ynghylch sut i lunio asesiadau o'r effaith ar y Gymraeg a mynychu cyfarfodydd adrannol i drafod.
- arwain ar ymgyrchoedd diwylliannol yn y gymuned a'u hyrwyddo'n fewnol

7. CASGLIAD

Os hoffech drafod unrhyw ddatganiad sydd wedi'i nodi yn y polisi hwn mae croeso i chi gysylltu â ni:

Uned Gwasanaethau Cymraeg

Cymraeg@torfaen.gov.uk

Y Ganolfan Ddinesig,
Glantorvaen Roed,
Pont-y-pŵl,
Torfaen,
NP44 6YB

01495 766096